# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

## RHAN 3

SICRHAU ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL A'U CYLLIDO

*Addysg bellach a hyfforddiant*

PROSPECTIVE

### 96 Gofynion ar y Comisiwn wrth sicrhau addysg bellach a hyfforddiant

(1) Wrth gyflawni'r dyletswyddau a osodir arno gan adrannau 93 i 95, rhaid i'r Comisiwn—

(a) rhoi sylw i'r mannau lle y darperir cyfleusterau, natur y cyfleusterau a'r ffordd y maent wedi eu cyfarparu;

(b) rhoi sylw i'r galluoedd gwahanol a'r doniau gwahanol sydd gan bersonau gwahanol;

(c) rhoi sylw i ofynion cyflogwyr, cyflogeion a chyflogeion posibl mewn perthynas â'r addysg a'r hyfforddiant sy'n ofynnol mewn sectorau cyflogaeth gwahanol;

(d) rhoi sylw i'r addysg a'r hyfforddiant sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod cyflogeion a chyflogeion posibl ar gael sy'n gallu cyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg;

(e) rhoi sylw i'r addysg a'r hyfforddiant sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod cyfleusterau ar gael ar gyfer asesu drwy gyfrwng y Gymraeg a oes gan bersonau anghenion dysgu ychwanegol;

(f) rhoi sylw i gyfleusterau y mae'r Comisiwn yn meddwl y gellid sicrhau'r ddarpariaeth ohonynt yn rhesymol gan bersonau eraill (gan gynnwys

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/12/2022. Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 96. (See end of Document for details)*

darpariaeth a sicrheir gan awdurdodau lleol o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (dccc 2));

(g) gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r Comisiwn ac, yn benodol, osgoi darpariaeth a allai beri gwariant anghymesur.

(2) Nid yw darpariaeth i'w hystyried yn un sy'n peri gwariant anghymesur dim ond oherwydd bod y ddarpariaeth honno yn ddrutach na darpariaeth gyffelyb.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 96 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 148(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/12/2022. Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 96.